



COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

POLISI AR GYFER CWYNIION O DAN SAFONAU'R GYMRAEG

CWYNIION

O dan y polisi hwn, gall unrhyw un sy'n teimlo bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, neu unrhyw aelod o'i staff, wedi torri ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wneud cwyn.

Bydd y polisi hwn yn amlinellu sut y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn delio â chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaeth, a'r hyfforddiant a ddarperir i staff mewn perthynas â delio â'r cwynion hynny. Bydd y ddogfen hon ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Comisiynydd ac ar bapur yn swyddfa'r Comisiynydd yn Gymraeg a Saesneg.

Nid yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am gwynion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth swyddogion neu staff Heddlu De Cymru â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cyfrifoldeb Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru fydd hyn o hyd .

Gallech gwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth o ran Safonau'r Gymraeg os ydych yn teimlo bod unrhyw un o'r canlynol wedi digwydd:

1. Rydych yn teimlo bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, neu aelod o'i dîm, wedi methu â chydymffurfio ag un o Safonau'r Gymraeg ar lefel sefydliadol (er enghraifft, mewn polisi neu drwy roi prosiect ar waith).
2. Rydych yn teimlo bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, neu ei dîm, wedi methu â rhoi'r Cynllun Cymraeg ar waith yn iawn na gwneud hynny mewn modd amserol, neu wedi methu â chywiro camgymeriadau a wnaed yn y broses o roi'r cynllun ar waith.
3. Os ydych yn teimlo bod rhywun wedi ymyrryd ar eich rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Monitro Cwynion

Mae'n ddyletswydd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fonitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn Heddlu De Cymru, gan gynnwys y rheini a wneir mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Mae'n gwneud hwn drwy ddirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i hapsamplu cwynion yn ôl yr angen, gyda chymorth Rheolwr Ymateb y



Cyhoedd, ac i fonitro cydymffurfiaeth gyffredinol Heddlu De Cymru â Safonau'r Gymraeg. Caiff pob cwyn hefyd ei thrafod â Bwrdd y Gymraeg Heddlu De Cymru ochr yn ochr â chwynion a wneir yn erbyn Heddlu De Cymru.

Fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg, bydd Adroddiad Blynyddol yn amlinellu cydymffurfiaeth â'r Safonau a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

CWYNIION YN ERBYN COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDAU

Mae'r canlynol yn amlinellu'r broses y dylid ei dilyn wrth wneud cwyn ffurfiol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (neu aelod o'i staff) am ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

1. Rhaid cwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol:
- 2.

Tŷ Morgannwg
Pencadlys Heddlu De Cymru
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU

01656 869366

commissioner@south-wales.pnn.police.uk

3. Ar ôl derbyn eich cwyn, bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn cofnodi eich cwyn ac yn ymchwilio i gynnwys eich cwyn. Bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymchwiliad i'ch cwyn yn rheolaidd.
4. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad i'ch cwyn, bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn llunio adroddiad y caiff ei ansawdd ei sicrhau gan y Rheolwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Comisiynydd Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu p'un a gafodd eich cwyn ei chadarnhau.
5. Gwneir argymhellion yn yr adroddiad i amlinellu sut y caiff eich cwyn ei datrys - caiff yr argymhellion hyn eu cymeradwyo yn ystod y cam sicrhau ansawdd ac yna cânt eu rhoi ar waith.
6. Gall datrys eich cwyn gynnwys esboniad, ymddiheuriad, neu gywiro camgymeriad neu anghywirdeb.



7. Ar ôl datrys eich cwyn, caiff eich cwyn, a'r ffordd y cafodd ei datrys, ei chofnodi mewn cofnod gwersi er mwyn sicrhau y caiff unrhyw brosesau neu weithdrefnau a oedd yn ddiffygiol a arweiniodd at eich cwyn, eu datrys er mwyn atal unrhyw achos arall o dorri Safonau'r Gymraeg.
8. Os oedd eich cwyn yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth aelod o staff â Safonau'r Gymraeg a chafodd hynny ei brofi, yna darperir hyfforddiant pellach i'r aelod o staff er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achos arall o dorri'r Safonau.
9. Pe byddech yn dal yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, gallech gwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, gan ddefnyddio'r ffurflen gwyno sydd ar gael yn:
<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/English/Complain/Pages/Complaints-form.aspx>

Gallech gwyno i Gomisiynydd y Gymraeg am y meysydd canlynol:

1. Methiant sefydliad i gydymffurfio â safon.
2. Os ydych yn teimlo bod rhywun wedi ymyrryd ar eich rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Hyfforddi Staff

Bydd gan Reolwr Ymateb y Cyhoedd gyfrifoldeb cyffredinol dros ddelio â chwynion a wnaed mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn gymwys i ddelio â chwynion drwy weithdrefnau ffurfiol a bydd yn sicrhau y rhoddir ymateb yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo angen. Bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd hefyd yn sicrhau y rhoddir unrhyw ddysgu neu argymhellion a wneir yn dilyn yr ymchwiliad i'ch cwyn, ar waith yn swyddfa'r Comisiynydd gyda chymorth gan y Rheolwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn rhoi hyfforddiant i aelodau o staff swyddfa'r Comisiynydd mewn perthynas â delio â chwynion a wneir mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Caiff yr hyfforddiant hwn ei dargedu'n benodol at rolau sy'n delio â'r cyhoedd bob dydd a/neu sydd â chyfrifoldeb am gyfathrebiadau electronig y Comisiynydd â'r cyhoedd, gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr hyfforddiant yn cwmpasu sut i gydnabod cwyn, y broses y mae'n rhaid ei dilyn pan gaiff cwyn ei gwneud, a sut y caiff cwynion eu datrys yn ffurfiol.



Cwynion yn Erbyn Heddlu De Cymru

Caiff cwynion a wneir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth Heddlu De Cymru â Safonau'r Gymraeg eu hanfon at yr awdurdod priodol yn Heddlu De Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yna, bydd Heddlu De Cymru yn cysylltu â chi yn uniongyrchol mewn perthynas â'ch cwyn a byddant yn dilyn ei bolisi ei hun o ran delio â'ch cwyn. Bydd Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn cadw cofnod o bob cwyn a anfonwyd ymlaen at Heddlu De Cymru a chânt eu monitro gan Reolwr Ymateb y Cyhoedd a'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw yn gyflym ac yn rhesymol.

Ionawr 2017
Jacqueline Trow
Rheolwr Ymateb y Cyhoedd